# SL(6)088 – Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

## Cefndir a diben

Mae [Rheolau 2021](#) yn pennu'r rheolau ymddygiad ar gyfer ethol cynghorwyr i gynghorau cymuned neu gynghorau tref yng Nghymru. Mae Rheolau 2021 yn benodol i Gymru a'u nod yw darparu set wedi'i diweddaru a'i moderneiddio o reolau ymddygiad. Er enghraifft, mae Rheolau 2021 yn nodi'r rheolau ynghylch:

- yr amserlen ar gyfer gweithgareddau penodol sy'n digwydd cyn ac ar y diwrnod pleidleisio,
- rhoi hysbysiad o etholiad,
- enwebu ymgeiswyr,
- ffurf papurau pleidleisio,
- swyddogaethau swyddogion canlyniadau a swyddogion llywyddu,
- penodi (gan ymgeiswyr) asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif,
- cyfrif pleidleisiau a datgan canlyniadau.

Mae Rheolau 2021 hefyd yn darparu ar gyfer gweithredu polisïau a wnaed fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ymgynghorwyd ar y newidiadau polisi hyn fel rhan o'r ymgynghoriad Diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol yng Nghymru, a gynhaliwyd yn 2017. Mae'r polisïau sy'n cael eu dwyn ymlaen yn Rheolau 2021 yn ymwneud â chyhoeddi'n ddewisol gyfeiriad cartref yr ymgeisydd, y datganiad o aelodaeth plaid a'r newidiadau angenrheidiol yn dilyn ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor cymwys.

Bydd Rheolau 2021 yn gymwys i ethol cynghorwyr i gynghorau cymuned neu gynghorau tref yng Nghymru a gynhelir ar 5 Mai 2022 neu wedi hynny.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheolau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheolau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheolau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rheolau 2021, ymhlith pethau eraill, yn cydgrynhoi'r gyfraith sy'n ymwneud ag etholiadau cynghorau cymuned a'r rheolau ar gyfer eu cynnal.

Rydym yn croesawu'r gwaith i gydgrynhoi'r maes hwn o'r gyfraith, a oedd yn arfer dod o dan Reolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006 (**Rheolau 2006**). Gwnaed Rheolau 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar sail Cymru a Lloegr, yn Saesneg yn unig, ac roeddent yn cynnwys cyfuniad cymhleth o ddarpariaethau, â rhai ohonynt yn gymwys yng Nghymru a rhai nad oeddent yn gymwys yng Nghymru.

Mae Rheolau 2021 bellach yn nodi'r rheolau perthnasol sy'n gymwys yng Nghymru mewn ffordd glir, mewn un lle ac yn Gymraeg a Saesneg. Bydd hyn yn gwella hygyrchedd i'r maes hwn o'r gyfraith yn sylweddol, sydd i'w groesawu.

Mae Memorandwm Esboniadol Rheolau 2021 i'w groesawu hefyd, sy'n cynnwys esboniad clir a thrylwyr o Reolau 2021. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried hyd Rheolau 2021 (dros 170 o dudalennau).

Fodd bynnag, nodwn fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud is-ddeddfwriaeth bellach yn y maes hwn o'r gyfraith, gan wneud darpariaeth atodol a chanlyniadol. Gobeithiwn na fydd hyn yn arwain at gam diangen yn ôl o safbwynt y gwaith hygyrchedd a chydgrynhoi y mae Rheolau 2021 yn ei gyflawni.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Tachwedd 2021**